# Disgrifiad o system reolaeth y Deyrnas Unedig ar fewnforio anifeiliaid byw a chynnyrch anifeiliaid a gwerthuso perfformiad hynny i warchod y cyhoedd ac iechyd anifeiliaid

---

Ebrill 2014 – Mawrth 2016

Medi 2017

Department for Environment Food & Rural Affairs

Department of Agriculture, Environment and Rural Affairs
www.daera-ni.gov.uk

The Scottish Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Disgrifiad o system reolaeth y Deyrnas Unedig ar fewnforio anifeiliaid byw a chynnyrch anifeiliaid a gwerthuso perfformiad hynny i warchod y cyhoedd ac iechyd anifeiliaid (Ebrill 2014 – Mawrth 2016)

Cyflwynwyd i'r Senedd mewn perthynas ag adran 10A o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002)

Medi 2017

© Hawlfraint y Goron 2017

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn dan amodau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio pan nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, trowch at nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, Llundain TW9 4DU, neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Ble rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen ichi gael caniatâd gan ddalwyr yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom yn ITAP@defra.gsi.gov.uk

ISBN 978-5286-0017-0

CCS0817844040 09/17

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys lleiafswm o 75% o gynnwys ffibr wedi ei ailgylchu

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan APS Group ar ran Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys


| | Eitem | Rhif y Dudalen |
|---|---|---|
| | Crynodeb Gweithredol | 1 |
| **Pennod 1** | Asesu risgiau/Goruchwylio Afiechydon Byd-eang | 6 |
| **Pennod 2** | DIOGELU ac YMATEB: Rheoli Ffiniau'r Deyrnas Unedig | 7 |
| **Pennod 3** | SICRWYDD: Rheolaeth ôl-ffiniol y Deyrnas Unedig | 14 |
| **Pennod 4** | Gweithio ynghyd: Cydlynu a chydweithio | 17 |
| | Trem i'r Dyfodol 2016-2017 | 21 |
| **Atodiad A** | Ystadegau ar fewnforio cynnyrch anghyfreithlon | 23 |
| **Atodiad B** | Geirfa o dalfyriadau ac acronymau cyffredin | 28 |

# Crynodeb Gweithredol

Pleser yw cyflwyno ein deuddegfed Adroddiad Blynyddol yn unol ag adran 10A Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002) sy'n disgrifio'r camau a gymerir gan y Llywodraeth ac eraill i atal afiechydon anifeiliaid rhag cyrraedd y Deyrnas Unedig Mae'r cyd-destun ar gyfer rheoli mewnforion yn gymhleth ac mae angen ei addasu'n rheolaidd er mwyn adlewyrchu'r newidiadau mewn risgiau afiechydon byd-eang a phatrwm ehangol masnach ryngwladol.

Mae'r adroddiad hwn yn egluro'r deilliannau, y polisi a'r datblygiadau gweithredol penodol. Erys strwythurau'r asiantaethau allweddol ar draws llywodraeth ganolog a lleol sy'n cyfranogi yn y gwaith hwn heb eu newid felly er mwyn lleihau hyd yr adroddiad hwn, nid ydynt wedi'u rhestru ar wahân ond gellir eu gweld yn yr adolygiad sy'n cwmpasu'r cyfnod 2012-2014 trwy droi at https://www.gov.uk/government/publications/review-of-controls-on-imports-of-animals-and-animal-products-april-2012-to-march-2014

## Cwmpas yr Adroddiad

Mae'r adroddiad yn cwmpasu dwy flynedd, sef Ebrill 2014 – Mawrth 2016.

Mae'r adolygiad hwn wedi cael ei lunio gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) a chafwyd cyfraniadau gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA), yr Adrannau Amaethyddiaeth a Materion Gwledig yn y Llywodraethau Datganoledig, yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) a Llu'r Ffiniau.

Mae'r adroddiad yn rhoi manylion:

- Monitro afiechydon byd-eang a sganio'r gorwel (Pennod 1)
- Effeithiolrwydd y mesurau rheoli wrth y ffin (Pennod 2)
- Mesurau mewndirol (Pennod 3)
- Cydweithio rhwng asiantaethau (Pennod 4)

Tra cymerwyd gofal i sicrhau bod y dolenni i'r we sydd yn yr adroddiad hwn yn gywir wrth i ni gyhoeddi, gall rhai newidiadau ddigwydd.

Tîm Mewnforion a Masnach â'r UE,
Rheoli Afiechydon Estron,
Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
17 Smith Square, Llundain, SW1P 3JR
E-bost: Imports&TradeinAnimalsandProducts@defra.gsi.gov.uk

## Llwyddiannau/Diweddariadau

- **Archwiliadau'r Comisiwn**

Ym Mai 2014, fe wnaeth Swyddfa Bwyd a Milfeddygol y Comisiwn Ewropeaidd (a elwir bellach yn Archwiliadau a Dadansoddiadau Iechyd a Bwyd, Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Iechyd a Diogelwch Bwyd) gynnal archwiliad i werthuso'r system oedd yn ei lle er mwyn cadarnhau priodoldeb ac effeithiolrwydd y mesurau rheoli swyddogol yn ymwneud â mewnforio a chludo cynnyrch anifeiliaid ac anifeiliaid byw ac i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd.

Roedd yr archwiliad yn cwmpasu nifer o faterion, yn cynnwys:

- Cydweithio rhwng awdurdodau cymwys a'u gweithdrefnau ar gyfer monitro, llunio adroddiadau, a chamau unioni ac atal a gymerwyd ble nodwyd diffygion;
- Mesurau rheoli swyddogol a weithredir mewn Safleoedd Archwilio Ffiniau (BIPs) a'r gweithdrefnau sydd yn eu lle i sicrhau y caiff y mesurau rheoli eu gweithredu fel y disgwylir;
- Monitro/mesur perfformiad mesurau rheoli mewnforion swyddogol a sut mae'r Awdurdod Cymwys (AC) yn defnyddio'r wybodaeth honno i werthuso cyflawniad amcanion a'r
- Defnydd o ganlyniadau i gynllunio at y dyfodol a gwella'r system rheoli mewnforion.

Dyma oedd casgliad cyffredinol yr archwiliad:

- Roedd yr AC wedi sefydlu gweithdrefnau i gadarnhau cydymffurfiaeth ac effeithiolrwydd mesurau rheoli mewnforion swyddogol mewn perthynas â gofynion cyfreithiol a threfniadau cynlluniedig yn y BIPs.
- Roedd y gweithgareddau gwirio yn cynnwys gwerthuso priodoldeb mesurau rheoli mewnforion pan nodir diffygion.
- Defnyddir canlyniadau'r gweithgareddau dilysu hefyd er mwyn diweddaru'r gweithdrefnau perthnasol a ddogfennwyd a gallant hefyd arwain at hyfforddiant wedi'i dargedu ar gyfer personél.
- Mae gwelliannau yn dilyn gwirio'r mesurau rheoli allforion swyddogol a gweithrediadau'r tîm Twyll Bwyd yn amlwg.

Roedd hwn yn weithgaredd canfod ffeithiau felly ni roddwyd unrhyw argymhellion i'r AC.

Mae copi o adroddiad yr archwiliad ar gael ar wefan Comisiwn Ewrop: http://ec.europa.eu/food/audits-analysis/audit_reports/details.cfm?rep_id=3314

- **Mewnforion cŵn a chathod**

Tua diwedd y cyfnod adrodd, fe wnaeth yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion newid yr asesiad risg ynghylch trosglwyddo cŵn yn fasnachol fel ymateb i newidiadau mewn patrymau masnach o gŵn yn cyrraedd Prydain Fawr o Aelod Wladwriaethau eraill yr Undeb Ewropeaidd a gwybodaeth ynghylch risg afiechydon y trosglwyddiadau.

- **Asesu Risg – deall y risg**

Mae Defra yn monitro unrhyw achosion cychwynnol o afiechydon anifeiliaid sylweddol, neilltuol a newydd yn fyd-eang. Fe wnaeth Defra hysbysu'r BIPs a Llu'r Ffiniau am yr achosion newydd i alluogi mesurau rheoli rheoleiddiol ac atal smyglo wrth y ffin i fod yn ymatebol i risgiau newydd neu newidiol i iechyd anifeiliaid.

- **Bioddiogelwch (Lloegr)**

Yn ystod y cyfnod adrodd, cynhaliwyd Cyfarfodydd Bioddiogelwch Gweinidogol Misol i sicrhau cynnydd amserol wrth ymateb i risgiau bioddiogelwch perthnasol a chynnig trosolwg a chyfarwyddyd strategol. Fe wnaeth methodoleg asesu risg newydd ganiatáu i risgiau i iechyd anifeiliaid a phlanhigion gael eu hasesu gyda'i gilydd, o ran tebygolrwydd ac effeithiau.

- **'Strategaeth Gorfodi' Defra a Llu'r Ffiniau**

Gan adeiladu ar y Strategaeth Gorfodi ar ei newydd wedd sy'n cwmpasu cynnyrch anifeiliaid, mae Defra a Llu'r Ffiniau wedi bod yn edrych ar fframwaith cyson ar gyfer cydweithio i sicrhau fod y fframwaith deddfwriaeth sy'n llywodraethu mewnforio planhigion ac anifeiliaid, a chynnyrch anifeiliaid a phlanhigion, yn cael ei orfodi'r effeithiol. Bydd hyn yn cyfuno holl fuddion Defra y mae'n ofynnol eu gorfodi wrth y ffin o dan un cytundeb ymbarél. Mae hyn yn cynnwys:

- Mewnforion Masnachol a Phersonol o Gynnyrch Anifeiliaid (POAO).
- Mewnforion masnachol a phersonol o anifeiliaid byw (yn cynnwys anifeiliaid dyfrol) a Chynllun Teithio Anifeiliaid Anwes yr UE.
- Iechyd Planhigion – mewnforion masnachol a phersonol o Blanhigion a Chynnyrch Planhigion, yn cynnwys pren, cynnyrch pren a rhisgl.
- Amddiffyn bioamrywiaeth a rhywogaethau sydd mewn perygl gan ddefnyddio'r rheoliadau Rheoli'r Fasnach mewn Rhywogaethau sydd mewn Perygl (CITES) a rheoliadau Gorfodi Cyfraith, Llywodraethu a Masnach Coedwigoedd yr UE (FLEGT).

- Rheoli Rhywogaethau Estron Ymledol o dan Reoliadau newydd yr UE a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2015, ble nad oedd y rhain eisoes wedi'u cwmpasu gan CITES neu gyfundrefnau Iechyd Anifeiliaid neu Iechyd Planhigion.

- Meddyginiaethau Milfeddygol - mewnforion masnachol a phersonol o feddyginiaethau milfeddygol.

- Mae POAO, CITES ac Iechyd Anifeiliaid wedi'u cynnwys yn Strategaeth Rheoli bresennol Llu'r Ffiniau.

### Newidiadau yn nhrefniadaeth a strwythur awdurdodau cymwys a chyrff gorfodi eraill

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, crëwyd yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA). Lansiwyd yr asiantaeth ar 1 Hydref 2014. Fe wnaeth uno'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Labordai Milfeddygol (AHVLA) blaenorol â rhannau o'r Asiantaeth Ymchwil Bwyd a'r Amgylchedd (FERA) oedd yn gyfrifol am iechyd planhigion a gwenyn i greu un asiantaeth sy'n gyfrifol am iechyd anifeiliaid, planhigion a gwenyn. Mae rhagor o wybodaeth ar gael trwy droi at: gov.uk/government/organisations/animal-and-plant-health-agency.

Lleolir tîm gweithredol cynnyrch eginol APHA yn y Ganolfan Fasnach Ryngwladol yng Nghaerliwelydd. Mae'r tîm yn cydlynu'r gwaith o archwilio canolfannau casglu a storfeydd semen, a thimau casglu embryonau.

Er bod hynny y tu allan i gyfnod yr adroddiad hwn, ym Mai 1016, ychwanegwyd cyfrifoldebau ychwanegol mewn perthynas â mesurau rheoli amgylcheddol at rolau a chyfrifoldebau DARD (Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig), a daeth yn Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA). Nid oes unrhyw newid yn y rôl sy'n ymwneud â mesurau i reoli mewnforion.

## Effeithiolrwydd cyffredinol mesurau rheoli mewnforion

- **Gwerthiant masnachol**

Ceir rhyddid i symud rhwng Aelod Wladwriaethau'r UE, fodd bynnag, archwilir cyfran ar hap o drosglwyddiadau ar sail asesiad o'r risg o afiechyd. Gwnaed archwiliadau ymarferol o'r rhan fwyaf o drosglwyddiadau o anifeiliaid byw a chanran benodol o gynhyrchion o drydydd gwledydd. Mae cyfanswm y gweithredu gorfodi ffurfiol sy'n ofynnol yn y BIPs wedi parhau ar lefel sy'n gyson o isel o ran cynnyrch anifeiliaid ac anifeiliaid byw. Mae gweithredu gorfodi anffurfiol i wella safonau ardystio wedi arwain at welliant yn y rhan fwyaf o ardaloedd. Roedd y nifer o drosglwyddiadau o gynnyrch anifeiliaid a fewnforiwyd yn 2015/16 fymryn yn is o'i gymharu â 2014/15 (0.7%). Yn achos anifeiliaid byw, fe wnaeth nifer y mewnforion o anifeiliaid byw gynyddu 7.3% yn 2015/16 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Yn achos mewnforion anifeiliaid a chynnyrch anifeiliaid o drydydd gwledydd, fe wnaeth cydymffurfio barhau yn uchel iawn. Yn ystod 2014/15 a 2015/2016, dim ond 1.3% o'r holl lwythi o gynnyrch anifeiliaid a wrthodwyd. Yn 2014/15, gwrthodwyd 0.3% o lwythi o anifeiliaid byw a 0.4% yn 2015/16.

Os oedd cynnyrch anifeiliaid yn bygwth iechyd y cyhoedd neu anifeiliaid, roedd dinistrio'r llwyth yn dal yn gam gorfodi mwyaf cyffredin. Yn achos anifeiliaid byw, cafodd y rhan fwyaf o lwythi eu cadw mewn cwarantîn nes bod eu risg o beri afiechyd yn ddibwys.

Yn ystod y cyfnod rhwng Mai ac Awst 2015, fe wnaeth BIP Belfast gynnal gwiriadau milfeddygol ar 271 llwyth o POAO o'r Unol Daleithiau; roedd y llwythi hyn wedi'u bwriadu ar gyfer llongau pleser na allai ddocio ym mhorthladd Dulyn o ganlyniad i waith datblygu'r porthladd.

- **Mewnforion personol**

Fe wnaeth perthynas waith agos rhwng Defra a Llu'r Ffiniau sicrhau ymyriadau effeithiol a seiliedig ar risgiau.

Roedd y rhan fwyaf o'r mewnforion anghyfreithlon a ganfuwyd gan Lu'r Ffiniau yn fach iawn ac fel arfer yn rhoddion gan deithwyr yn ymweld â theulu neu atafaeliadau gan dwristiaid, pobl fusnes a myfyrwyr yn teithio i'r Deyrnas Unedig am y tro cyntaf. Nwyddau a gludwyd yn anfwriadol oedd y rhan helaeth gan deithwyr nad oedd yn ymwybodol o waharddiadau cyfredol yr UE, er gwaethaf ymgyrchoedd hysbysebu.

Mae Llu'r Ffiniau a Defra yn rhannu cyfrifoldeb am hysbysu'r cyhoedd yn eglur am reolau mewnforio presennol yr UE, a pham fod y mesurau rheoli yn ofynnol. Yn gyffredinol, mae gan Lu'r Ffiniau gyfrifoldeb am nwyddau sy'n cyrraedd y wlad wrth y ffin, ac mae Defra yn gyfrifol am nwyddau wedi'u mewnforio pan fyddant yn y wlad. Caiff cyfleoedd i gydweithio i wella cyfathrebu eu hystyried yn rheolaidd hefyd, e.e. pan ddyroddir teithebau, a thrwy gyfrwng y diwydiant ymwelwyr.

# Pennod 1 Asesu risgiau/Goruchwylio Afiechydon Byd-eang

1.1 Rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2016, fe wnaeth Defra gynnal a chyhoeddi Asesiadau Rhagarweiniol o Achosion yn ymwneud ag afiechydon megis Clwy Affricanaidd y Moch (ASF). Y Tafod Glas (BTV), Clwy'r Traed a'r Genau (FMD), Ffliw Adar Pathogenaidd Iawn (HPAI), Afiechyd Nychdod Cronig (CWD) a Chlefyd y Croen Talpiog (LSD) yn ogystal â chlefydau hysbysadwy eraill ymhlith anifeiliaid. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: gov.uk/government/collections/animal-diseases-international-monitoring. Rydym ni hefyd wedi cyhoeddi Asesiadau Risgiau Ansoddol ynghylch LSD, CWD a BTV i lywio cwestiynau polisi penodol ynghylch y risg cynyddol yn dilyn achosion o afiechydon yn digwydd yn Ewrop.

# Pennod 2 DIOGELU AC YMATEB: Rheoli ffiniau'r Deyrnas Unedig

## AMDDIFFYN: GWERTHIANT MASNACHOL

2.1 Mae anifeiliaid byw a chynnyrch anifeiliaid a fewnforiwyd yn cynnig lefel uchel o risg oherwydd gallant drosglwyddo afiechydon dynol ac anifeiliaid difrifol. Mae rheolaeth ffiniau filfeddygol yn ffactor allweddol i sicrhau bod yr anifeiliaid a chynnyrch anifeiliaid sy'n dod i mewn i'r Deyrnas Unedig yn ddiogel ac yn bodloni'r amodau mewnforio penodol a bennwyd gan ddeddfwriaeth y Gymuned. Gall anifeiliaid byw a chynnyrch anifeiliaid wedi'u mewnforio beri risg oherwydd gallant ledaenu afiechydon dynol ac anifeiliaid sy'n hynod ddifrifol. Mae mesurau rheoli milfeddygol wrth y ffiniau yn ffactor allweddol i sicrhau fod anifeiliaid byw a chynnyrch anifeiliaid sy'n dod i mewn i'r Deyrnas Unedig o drydydd gwledydd yn ddiogel ac yn cyflawni'r amodau mewnforio penodol a amlinellir yn neddfwriaeth y Gymuned. Gan hynny, maent yn destun mesurau rheoli penodol wrth ddod i mewn i'r wlad yn y Safleoedd Archwilio Ffiniau (BIPs)[1] lle cynhelir gwiriadau milfeddygol arnynt gan Lawfeddygon Milfeddygol Swyddogol (OVS) neu Arolygwyr Pysgod Swyddogol (OFIs).[2]

2.2 Mae gweithgarwch rheoli'r BIPs yn cynnwys:

- gwirio pob maniffest i gadarnhau bod anifeiliaid byw a chynnyrch anifeiliaid wedi'u nodi'n gywir;
- gwiriadau dogfennol 100% i sicrhau bod unrhyw ardystiad iechyd angenrheidiol a dogfennau cyn-hysbysu wedi'u cynnwys a'u cwblhau'n gywir;
- gwiriadau hunaniaeth 100% i sicrhau bod yr anifeiliaid neu'r nwyddau yn unol â'r hyn a ddisgrifir ar y gwaith papur atodol; a

Chaiff bob llwyth o anifeiliaid a chyfran o gynnyrch anifeiliaid (rhwng 1% a 50% o lwythi) eu gwirio'n ymarferol, a gall hynny gynnwys samplu a phrofion labordy i sicrhau nad yw'r llwyth a anfonwyd yn fygythiad i iechyd anifeiliaid neu i bobl.

2.3 Ar gyfer cynnyrch anifeiliaid mae gan yr OVS ac Archwilwyr Pysgod Swyddogol y grym i gynnal unrhyw wiriadau sy'n briodol yn eu barn hwy mewn achosion lle byddant yn amau nad yw deddfwriaeth filfeddygol wedi ei fodloni neu os bydd unrhyw amheuaeth am y llwyth neu ei gyrchfan. Gall fod yna rai achosion lle bydd hi'n angenrheidiol, am gyfnod byr, gwneud cais am lefel uwch o wiriadau ar gynnyrch o rai trydydd gwledydd penodol (e.e. o ganlyniad i achos newydd o afiechyd). Dan amgylchiadau o'r fath, bydd pob BIP a gofrestrwyd fel un cymwys i ymdrin â'r cynnyrch dan sylw yn cael hysbysiad gan Defra yn ysgrifenedig am unrhyw gynnydd dros dro yn y lefel o ddadansoddi sy'n ofynnol.

---

[1] Mae gan borthladdoedd a meysydd awyr yn y Deyrnas Unedig sydd â BIP gyfleusterau arbennig a staff hyfforddedig i ddelio â bwyd risg uchel, megis cynnyrch cig, llaeth a physgodfeydd

[2] cyflogir gan yr Awdurdod Iechyd Porthladd perthnasol

2.4 Dylid cynnal gwiriadau ymarferol ar becynnau drwy'r llwyth cyfan – gall hyn olygu gorfod gwagio'r blychau'n rhannol neu'n gyfan gwbl. Mae'r gweithdrefnau samplu wedi'u hegluro yn Atodiad II o Reoliad 136/2004 y Comisiwn. [3] Bydd BIPs yn anfon samplau at: ddadansoddwr cyhoeddus a benodwyd gan awdurdod lleol ar gyfer dadansoddi bwyd, Labordai Microbioleg Bwyd, Dŵr ac Amgylcheddol Public Health England ar gyfer archwilio bwyd, ac os yw'n briodol, i labordai eraill sydd wedi'u hachredu ar gyfer technegau dadansoddol penodol.

2.5 Cynhelir gwiriadau ymarferol yn unol â'r lefel o risg a ragwelir o'r cynnyrch penodol a'u tarddiad. Mae'r ganran o becynnau a wirir wedi ei phennu yn gyfreithiol drwy Gyfarwyddyd 97/78/EC y Cyngor, gan ofyn am 100% o wiriadau dogfennol a hunaniaeth ar gynnyrch anifeiliaid a fewnforir ac mae Penderfyniad 94/360/EC y Comisiwn yn pennu'r lefelau o wiriadau ymarferol. Mae Cyfarwyddyd 91/496/EEC y Cyngor yn ei gwneud hi'n ofynnol bod pob anifail a fewnforir yn cael eu gwirio wrth ddod i mewn i'r UE.

2.6 Rhaid i anifeiliaid a chynnyrch anifeiliaid gael eu hardystio gan awdurdodau cydnabyddedig yn y gwledydd gwreiddiol. Cymeradwyir y gwledydd hyn ar sail ledled yr UE. Gellir cwblhau rhagor o wiriadau ar y cynnyrch yn y gyrchfan derfynol. Gall llwyth o anifeiliaid byw neu gynnyrch anifeiliaid ond dod i mewn i'r Deyrnas Unedig os yw wedi cwblhau'r gwiriadau penodol yn foddhaol a bod Dogfen Mynediad Milfeddygol Gyffredin wedi ei chyhoeddi. Rhaid i bob llwyth:

- ddod o sefydliad a gymeradwyir mewn gwlad a gymeradwyir
- fod â thystysgrif iechyd anifail ac/neu iechyd cyhoeddus yn atodol
- ddod i mewn i'r UE drwy BIP a gymeradwyir lle cynhelir gwiriadau i sicrhau bod y llwyth yn bodloni amodau'r mewnforio.

2.7 Mae deddfwriaeth yr UE[4] yn argymell y dylid anfon hysbysiad ymlaen llaw[5] i'r BIP ar gyfer llwythi o gynnyrch anifeiliaid ac anifeiliaid byw cyn iddynt gyrraedd ar diriogaeth yr UE:

- mewn meysydd awyr – bedair awr cyn i'r awyren gyrraedd ar gyfer teithiau hir ac wrth esgyn i'r awyr o'r maes awyr blaenorol ar gyfer teithiau byr[6]
- ar gyfer BIPs ffyrdd a rheilffyrdd – deuddeg awr cyn cyrraedd
- ar gyfer anifeiliaid byw – un diwrnod gwaith o leiaf.

[3] eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=OJ:L:2004:021:0011:0023:en:PDF
[4] Erthygl 3(3) Cyfarwyddeb 97/78/EC ac Erthygl 2(1) Rheoliad 136/200411
[5] gofynnir am hyn yn rhan gyntaf y CVED
[6] fel yn Rheoliad 2454/199312 y Comisiwn

2.8 Mae'r Cynllun Monitro Cenedlaethol yn adlewyrchu'r lefelau cyfredol o samplu cynnyrch anifeiliaid sy'n mynd trwy'r tollau. Diben hyn yw sicrhau nad oes modd rhagweld pa gynnyrch fydd yn cael eu samplu mewn unrhyw BIP. Gweithredir y Cynllun Monitro Cenedlaethol yn unol â deddfwriaeth Ewropeaidd.[7]

2.9 Rhaid i bob cynnyrch anifail a fewnforir ar gyfer ei fwyta gan bobl fod ag ardystiad anifail ac iechyd cyhoeddus oni bai eu bod yn becynnau personol neu gynnyrch trwyddedig ar gyfer profi blas. Mae deddfwriaeth yr UE yn caniatáu cymryd camau diogelu priodol, a all gynnwys gwahardd mewnforio cynnyrch anifeiliaid o rywogaethau sy'n agored i afiechyd o rannau o wlad neu'r wlad gyfan, os bydd achos newydd o afiechyd yn debygol o gyflwyno risg i iechyd dynol neu anifail.

2.10 Trosglwyddir gwybodaeth ynglŷn â chynnyrch nad ydynt yn cydymffurfio â'r symudiad yn allanol o gynnyrch trydedd wlad o BIPs i awdurdodau canolig mewn Aelod-wladwriaethau eraill gan ddefnyddio'r system gyfrifiadurol TRACES. Pan fydd trosedd ddifrifol neu barhaus o ddeddfwriaeth filfeddygol gytbwys yr UE wedi ei hamlygu a'i chadarnhau gan y Comisiwn Ewropeaidd bydd rhaglen o wiriadau atgyfnerthol yn weithredol ar becynnau o'r un tarddiad o sefydliad yn y drydedd wlad y gwneir yr hysbysiad amdani.

2.11 Gall mesurau diogelu ar rai bwydydd penodol a fewnforir fod yn weithredol i ran neu'r holl drydydd gwledydd, gwahardd mewnforion o gynnyrch neilltuol yn rhannol neu'n gyfan gwbl neu osod amodau arbennig a gofynion ynghylch cynnyrch penodol. Yn Lloegr, gweithredir y mesurau hyn, boed yn rai cenedlaethol neu rai'r UE, trwy Ddatganiadau Argyfwng dan Reoliad 29 o Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol 2011 a cheir darpariaethau tebyg yng nghyfraith Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae methu â chydymffurfio â darpariaethau'r datganiad yn drosedd.

## YMATEB: CRYNODEB O FESURAU RHEOLI MEWNFORION ANIFEILIAID BYW, CYNNYRCH ANIFEILIAID A SGIL-GYNHYRCHION ANIFEILIAID

2.12 Deddfwriaeth yr UE sy'n pennu lefel a natur mesurau rheoli mewnforion. Nid oedd unrhyw newidiadau sylweddol i'r lefel o fesurau rheoli yn ymwneud â mewnforion o gynnyrch anifeiliaid. Fe wnaeth nifer y llwythi o gynhyrchion anifeiliaid a fewnforiwyd ostwng ychydig o 58,906 yn 2014-15 i 58,498 yn 2015-16. Yn achos mewnforion o anifeiliaid byw o drydydd gwledydd, fe wnaeth nifer y llwythi gynyddu o 9,046 yn 2014-15 i 9,708 yn 2015-16.

2.13 Ar gyfer mewnforion o anifeiliaid a chynnyrch anifeiliaid o drydydd gwledydd, parhaodd lefel uchel iawn o gydymffurfiaeth. Ar gyfer cynnyrch anifeiliaid, mae ffigurau cyfnod 2014-15 a 2015-16 yr un fath, a gwrthodwyd dros 1.3% o becynnau. Roedd yr achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth yn wallau dogfennol; diffyg tystysgrif iechyd neu un annilys yn anad dim. Y

[7] Erthygl 8(1) Cyfarwyddeb rhif 97/78/EC y CE

rheswm tebygol am hyn yw diffyg dealltwriaeth neu wybodaeth am reolau'r UE yn yr awdurdod allforio o'r drydedd wlad. Ar gyfer anifeiliaid byw, gwrthodwyd 30 o becynnau yn 2014-15 o'i gymharu â 40 yn 2015-16.

2.14 Os bu i becyn gynnig risg i iechyd cyhoeddus neu i iechyd anifeiliaid, cafodd ei ddinistrio. Fel arall, gwnaed y penderfyniad i ail-allforio neu ddinistrio gan y mewnforiwr. Ar gyfer anifeiliaid byw, cafodd y rhan fwyaf o lwythi eu cadw dan gwarantin nes oeddent yn cynnig risg bychan iawn i iechyd anifeiliaid neu nes eu bod yn cydymffurfio ag amodau mewnforio.

2.15 Mae tablau isod yn dangos manylion y llwythi a wiriwyd a'r achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth a ganfuwyd.

### Tabl 1 – Cynnyrch Anifeiliaid a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid

| Blwyddyn (diweddariad) | Tystysgrifau | | | Gwrthodwyd | | Canlyniad y gwrthod | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm | Nifer a reolwyd | % a reolwyd | Nifer | % o'r cyfanswm | Ail-allforiwyd | Trawsnewidiwyd | Dinistriwyd |
| **2014-15** | 58,906 | 58,906 | 100.00% | 793 | 1.3% | 240 | 5 | 541 |
| **2015-16** | 58,498 | 58,498 | 100.00% | 788 | 1.3% | 282 | 2 | 500 |

Ffynhonnell y data: APHA

### Tabl 2 – Anifeiliaid Byw

| Blwyddyn (diweddariad) | Tystysgrifau | | | Gwrthodwyd | | Canlyniad y gwrthod | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm | Nifer a reolwyd | % a reolwyd | Nifer | % o'r cyfanswm | Ail-allforiwyd | Lladd | Ewthanasia[8] |
| **2014-15** | 9,046 | 9,046 | 100.0% | 30 | 0.3% | 28 | 0 | 2 |
| **2015-16** | 9,708 | 9,708 | 100.0% | 40 | 0.4% | 26 | 0 | 14 |

Ffynhonnell y data: APHA

## YMATEB: Crynodeb o becynnau Plasma Cenhedlu wedi'u mewnforio

| Blwyddyn (diweddariad) | Tystysgrifau TRACES a gyhoeddwyd | | | Gwrthodwyd | | Canlyniad y gwrthod | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm | Nifer a reolwyd | % a reolwyd | Nifer | % o'r cyfanswm | Ail-allforiwyd | Trawsnewidiwyd | Dinistriwyd |
| **2014-15** | 432 | 432 | 100.0% | 7 | 1.6% | 7 | 0 | 0 |
| **2015-16** | 519 | 519 | 100.0% | 1 | 0.2% | 1 | 0 | 0 |

Ffynhonnell y data: APHA

[8] Pysgod a Molysgiaid.

2.16 Mae'r mesurau rheoli wedi parhau yn gymharol ddi-newid dros y cyfnod adrodd. Bydd llwythi nad ydynt yn cydymffurfio yn cael eu hail-allforio neu eu dinistrio. Mae problemau gyda gwiriadau gwaith papur o Aelod Wladwriaethau eraill yn yr UE yn cael eu trafod â'r awdurdod cymwys sy'n gyfrifol am ddarparu'r ardystiad iechyd.

## Gwaith cysylltiedig – Awdurdodi a thrwyddedu Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid nad ydynt ar gyfer eu bwyta gan bobl

| **Awdurdodiadau a thrwyddedau a gyhoeddwyd ar gyfer mewnforio ABPs na fwriadwyd ar gyfer eu bwyta gan bobl (Ebrill 2014 – Mawrth 2016) - diweddariad** | | | |
|---|---|---|---|
| **Lloegr** | **Cymru** | **Yr Alban** | **Gogledd Iwerddon** |
| 702 | 7 | 34 | 278 |

Ffynhonnell y data: APHA a DAERA

2.17 Mae'r gofynion ar gyfer masnachu a mewnforio cynnyrch anifeiliaid nad yw ar gyfer ei fwyta gan bobl (ABP) wedi'u hamlinellu yn bennaf yn neddfwriaeth gytbwys yr UE sy'n amlinellu dogfennaeth fasnachol, tystysgrifau iechyd a datganiadau enghreifftiol fel y bo'n briodol, yn enwedig o ran ABP y bwriedir ei ddefnyddio fel porthiant.

2.18 Mae'n ofynnol dan y Rheoliadau[9] hefyd i rai nwyddau penodol gael eu hawdurdodi gan yr Awdurdod Cymwys cyn mewnforio o wlad nad yw'n rhan o'r UE neu cyn y gellir eu symud o Aelod Wladwriaeth arall.

2.19 Fodd bynnag, oherwydd yr ystod eang o ABPs a'r sawl defnydd sydd iddo mewn diwydiant ac o amgylch y byd, nid oes modd i'r rhain oll gael eu cwmpasu gan ddeddfwriaeth gytbwys bresennol yr UE. I hwyluso masnach mae Rheoliadau yn galluogi Awdurdodau Cymwys i osod eu Rheolau Cenedlaethol eu hunain lle nad oes amodau cytbwys mewn grym, lle teimlant y dylid gwneud hynny

2.20 O 2014 i 2016, crëwyd 50 o dempledi awdurdodi a 28 o dempledi trwyddedau i ganiatáu i rai ABP penodol a chynnyrch yn deillio ohonynt gael eu mewnforio'r i'r Deyrnas Unedig o dan Reolau'r UE a Rheolau Cenedlaethol. Crëwyd naw trwydded/awdurdodiad cyffredinol er mwyn caniatáu mewnforion heb fod angen cyhoeddi trwydded/awdurdodiad penodol.

## DIOGELU: MEWNFORION PERSONOL[10]

Rheolau mewnforio ar gyfer llwythi o gynnyrch anifeiliaid o wledydd o du allan i'r UE

2.21 Mae Rheoliad 206/2009 y Comisiwn[11] yn amlinellu'r rheolau mewnforio ar gyfer llwythi o gynnyrch anifeiliaid o wledydd o'r tu allan i'r UE. Mae'r rheoliad yn berthnasol i becynnau personol heb fod yn rhai masnachol sydd yn rhan o nwyddau teithio'r teithiwr, neu a yrrir fel

[9] Rheoleiddiad Comisiwn (EC) 1069/2009 a Rheoleiddiad Comisiwn (EU) Rhif 142/2011
[10] gov.uk/personal-food-plant-and-animal-product-imports
[11] eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/ALL/?uri=CELEX:32009R0206

llwythi bach i bobl breifat, neu a archebir o bell a'u danfon i'r cwsmer. Yn Lloegr caiff y rhain eu gorfodi'n genedlaethol gan Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (TARP). Mae gan Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon eu rheoliadau eu hunain sydd yn debyg iawn i'r rhain.

2.22 Mae Llu'r Ffiniau yn darparu mesurau rheoli gwrth-smyglo sy'n seiliedig ar risg i atal mewnforion anghyfreithlon o gynnyrch anifeiliaid ar safleoedd mynediad i Brydain Fawr o wledydd nad ydynt yn perthyn i'r UE. Mae hyn yn cynnwys mewnforion sy'n tramgwyddo'r nifer o gonsesiynau ar gyfer nwyddau a gludir ym magiau teithwyr er defnydd personol a phecynnau a anfonir drwy'r post i unigolion preifat, yn ogystal â chargo. Bydd gweithgarwch gwrth-smyglo a thactegau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod Llu'r Ffiniau yn parhau i ganolbwyntio ar ymateb i'r achosion newydd mwyaf difrifol a bod y lefel o adnoddau a ddefnyddir yn cyfateb yn briodol i'r asesiadau risg mwyaf cyfredol ac yn unol â blaenoriaethau gweithredol sefydliadol. DARD sy'n gyfrifol am fesurau rheoli yng Ngogledd Iwerddon.

2.23 Cyflogir staff Llu'r Ffiniau fel staff gwrth-smyglo aml ddefnydd, â chyfrifoldeb am ymdrin ag ystod o risgiau wrth y ffin, yn cynnwys delio â mewnforion anghyfreithlon o gynnyrch anifeiliaid.

2.24 Defnyddir staff Llu'r Ffiniau yn symudol ac yn hyblyg i ymdrin â phob safle mynediad. Mewn prif borthladdoedd a meysydd awyr, cânt eu cynorthwyo gan y defnydd o dechnoleg pelydr-x a chŵn synhwyro sydd wedi eu hyfforddi i ddarganfod unrhyw gynnyrch anifeiliaid. Defnyddir cŵn synhwyro'n hyblyg mewn Sianelau Tollau a mannau adhawlio bagiau yn unol â'r asesiadau risg mwyaf cyfredol. Mae cŵn synhwyro'n gweithio mewn siediau cargo hefyd yn ogystal â neuaddau ceir a lonydd lorïau. Mae cŵn yn neilltuol o lwyddiannus yn adnabod cynnyrch anifeiliaid a guddiwyd mewn bagiau ac wedi bod yn effeithiol iawn wrth ddelio â nifer fawr o deithwyr a'u bagiau. Gall y nifer o gŵn sydd ar gael i'w defnyddio amrywio yn dibynnu ar yr angen i gael cŵn newydd yn sgil ymddeol cŵn neu salwch a'r nifer o gŵn a'u meistri sy'n hyfforddi ar unrhyw adeg.

2.25 Er ei bod hi'n anghyfreithlon i deithwyr fewnforio cynnyrch anifeiliaid o'r rhan fwyaf o wledydd o du allan i'r UE, mae'r llwybr hwn yn un sy'n cynnig risg wrth i deithwyr, yn fwriadol neu'n anfwriadol, dorri'r rheolau.

## YMATEB: CRYNODEB O FESURAU RHEOLI MEWNFORION ANIFEILIAID BYW A CHYNNYRCH ANIFEILIAID

2.26 Mae Llu'r Ffiniau yn gweithredu mesurau rheoli gwrth-smyglo a arweinir gan gudd-wybodaeth ar fynedfeydd penodol i mewn i'r Deyrnas Unedig. Mae'r gweithgarwch canfod mewn porthladdoedd yn gymesur â'r risg, ac mae'n cwmpasu amrywiaeth o nwyddau a bygythiadau. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw darged ar gyfer Cynnyrch Anifeiliaid (POAO) ond mae gan Lu'r Ffiniau ddyletswydd i atafaelu deunydd perthnasol pan fyddant yn canfod hynny.

2.27 Mae'r nifer o atafaeliadau gan Lu'r Ffiniau o gynnyrch anifeiliaid a fewnforiwyd yn anghyfreithlon wedi eu nodi yn Atodiad A. Rhwng y cyfnod adrodd 2014-2015 mewn meysydd awyr a phorthladdoedd, bu gostyngiad o 2% yn y nifer o atafaeliadau o gynnyrch a fewnforiwyd yn anghyfreithlon, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (2013-14 – 14,071, 2014-15 – 13,790); a gostyngiad o 40.5% rhwng 2015 a 2016, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (2014-15 – 13,790, 2015-16 – 9,810).

2.28 Daw'r prif fygythiad oddi wrth gig anghyfreithlon (yn cynnwys cig gwyllt) a chynnyrch llaeth, a sbardunir hyn o bosib gan alw cynyddol o siopau bwyd ethnig sy'n cyflenwi amrywiaeth o gynnyrch arbenigol a thraddodiadol. Mae rhai o'r llwythi hyn yn weddol fawr o ystyried dull teithio'r teithwyr: mae enghreifftiau diweddar wedi cynnwys 600kg o POAO ar daith hedfan breifat i Farnborough o Sawdi Arabia, 32.5kg o POAO a gludwyd ym mhaciau teithiwr o Albania a 58.8kg ym mhaciau howld teithiwr oedd wedi teithio o Gamerŵn.

2.29 Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, roedd y rhan fwyaf o'r mewnforion anghyfreithlon a ganfuwyd gan Lu'r Ffiniau yn gyfansymiau bychan ac fel arfer yn rhoddion gan deithwyr yn ymweld â theulu (neu'n dychwelyd ar ôl ymweld â theulu dramor) neu atafaeliadau gan dwristiaid, pobl fusnes a myfyrwyr yn teithio i'r Deyrnas Unedig am y tro cyntaf gyda chynnyrch bwyd ar gyfer digwyddiad arbennig, neu'n syml yn fwyd i'w hatgoffa am eu mamwlad. Nid nwyddau wedi'u smyglo'n fwriadol ond rhai a gludwyd yn anfwriadol oedd y rhan helaeth gan deithwyr nad oedd yn ymwybodol o reolau a gwaharddiadau cyfredol mewn grym ar gyfer mewnforio cynnyrch anifeiliaid, er gwaethaf ymgyrchoedd hysbysebu'r llywodraeth.

2.30 Roedd y nifer mwyaf o atafaeliadau gan deithwyr yn dychwelyd o Dde a Dwyrain Asia, y Dwyrain Canol a Phell a Dwyrain Ewrop. Mae digwyddiadau diwylliannol a chwaraeon (yn cynnwys dathliadau a thymhorau myfyrwyr) yn adegau pryd y disgwylir i'r lefel o atafaeliadau gynyddu efallai. Amrywiodd y rhain mewn maint a math o gynnyrch, o gig amrwd heb ei becynnu a chaws ffres i ddiodydd llaeth a chiwbiau stoc. Parhaodd y rhan helaeth o'r atafaeliadau i fod yn llai na 20kg gan ddilyn y patrwm arferol o grwpiau teuluol bach, pobl fusnes a myfyrwyr yn teithio i'r Deyrnas Unedig.

Er bod ffigyrau Gogledd Iwerddon wedi'u hymgorffori yn ffigyrau atafaeliadau BF, fe wnaeth atafaeliadau gan arolygwyr DAERA o gynnyrch wedi'i fewnforio'n anghyfreithlon gynyddu'n sylweddol; rhwng 2013-14 a 2014-15, bu cynnydd o 125% yn nifer yr atafaeliadau, a 28% rhwng 2014-15 a 2015-16. Yn ystod 2013, fe wnaeth DAERA adnewyddu ei phwyslais ar fewnforion personol trwy ddargyfeirio adnoddau staff a defnyddio gwasanaethau ci canfod bwyd.

# Pennod 3 SICRWYDD: Rheolaeth ôl-ffiniol y Deyrnas Unedig

## MESURAU RHEOLI MEWNDIROL: MONITRO A GWYLIADWRIAETH

### FSA - Gorfodi a Chudd-wybodaeth

3.1 Rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2016, cyhoeddodd y Deyrnas Unedig 647 o hysbysiadau 'rhybuddion' a 'gwybodaeth' drwy system RASFF yr UE. Mae hyn yn cynnwys achosion lle'r oedd cynnyrch bwyd o wledydd o'r tu allan i'r UE yn tramgwyddo gofynion diogelwch cyhoeddus ac iechyd anifeiliaid a chawsant eu gwrthod. Mae gan yr UE weithdrefn weithredu safonol mewn grym i rybuddio gwledydd o'r tu allan i'r UE am broblemau yn ymwneud â bwyd. Fel mater o drefn, mae RASFF yn rhybuddio Awdurdodau Iechyd Porthladd ac Awdurdodau Lleol mewn porthladdoedd a meysydd awyr er mwyn eu cynorthwyo i dargedu eu gwiriadau ar becynnau o fwydydd a fewnforir sydd ar fin cyrraedd.

3.2 Mae'r lefelau, ffocws ac amledd y mesurau rheoli mewnforion mewndirol yn seiliedig ar risg ac yn cael eu hysbysu gan ffactorau penodol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Mesurau diogelu'r UE.
- Hysbysiadau System Rhybuddio Cyflym ar gyfer Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (RASFF).
- Cudd-wybodaeth neu flaenoriaethau lleol.

3.3 Gall hyn gynnwys canlyniadau hanesyddol samplu iechyd porthladdoedd o'r rhaglen Samplu Genedlaethol a Chydlynol o Fwyd a Phorthiant Anifeiliaid yn seiliedig ar risg.

3.4 Cangen Ddigwyddiadau'r FSA yw pwynt cyswllt y Deyrnas Unedig ar gyfer hysbysiadau RASFF – offeryn allweddol i sicrhau llif o wybodaeth ar draws ffiniau ac ymateb yn gyflym pan ganfyddir risgiau i iechyd cyhoeddus yn y gadwyn fwyd. Defnyddir system RASFF yr UE gan FSA i hysbysu ac annog gweithredu gan y Comisiwn Ewropeaidd neu unrhyw Aelod Wladwriaeth arall.

3.5 Mae Rhybuddion Bwyd yn rhoi gwybodaeth i'r FSA er mwyn iddynt fedru cysylltu ag Awdurdodau Lleol a defnyddwyr ynglŷn â phroblemau yn gysylltiedig â phorthiant anifeiliaid a bwyd ac, mewn rhai achosion, darparu manylion am y gweithredu penodol i'w ymgymryd. Rhoddir y gwahanol gategorïau o rybuddion a gwybodaeth a gyhoeddir fel a ganlyn:

- **Rhybuddion Bwyd er Gweithredu** – a gyhoeddir pan fydd ar ddigwyddiad angen gwaith gorfodi gan Awdurdodau Lleol.
- **Hysbysiadau Gwybodaeth am Dynnu Cynnyrch yn ôl a Hysbysiadau Gwybodaeth am Adalw Cynnyrch** – tynnu sylw Awdurdodau Lleol at ddigwyddiad.
- **Rhybuddion am Alergeddau** – a gyhoeddir pan fydd yn ofynnol i dynnu bwydydd yn ôl neu eu hadalw a bod risg i ddefnyddwyr, oherwydd bod y label ar goll neu yn anghywir neu fod risg o adwaith alergaidd difrifol.

## Goblygiadau ar Awdurdodau Lleol

3.6 Dylai pob mewnforiwr gael eu hadnabod a'u cofrestru fel Gweithredwyr Busnes Bwyd/ Porthiant Anifeiliaid. Dylent gael eu cynnwys ar y rhaglen ymyriadau bwyd/porthiant anifeiliaid ar gyfer yr awdurdod lleol. Dylai sefydliadau sydd yn gyrchfannau cyntaf ar ôl mewnforio gael eu hadnabod a'u cofnodi. Gall y rhain gynnwys sefydliadau a ddefnyddir ar gyfer storio, prosesu, a/neu drin, prynu neu werthu cynnyrch anifeiliaid.

3.7 Dylai gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â gwaith rheoli mewnforion gael eu datblygu yn unol â'r Fframwaith Cytundeb ar Orfodi gan Awdurdodau Lleol, Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (a Chanllaw Ymarfer) a dogfennau canllaw cysylltiedig Defra. Dylai swyddogion awdurdodedig ystyried bwyd a fewnforiwyd a gynigir ar werth gan fusnesau bwyd fel elfen arferol o archwiliadau lendid a safonau bwyd. Dylent hefyd archwilio a chymryd camau priodol mewn perthynas â mewnforion anghyfreithlon (a honnir), mewnforion a allai beri risg i iechyd cyhoeddus neu i anifeiliaid a mewnforion sy'n methu â bodloni gofynion diogelwch bwyd.

3.8 Mae yna drefniadau cudd-wybodaeth a rhannu mewn grym, i Lu'r Ffiniau fedru trosglwyddo manylion atafaeliadau i'r FSA am nwyddau sydd ar fin cyrraedd sefydliadau masnachol, a gall yr FSA ddadansoddi'r wybodaeth. Trosglwyddir y gudd-wybodaeth hon i'r awdurdod lleol perthnasol yn ôl yr angen. Trosglwyddir canlyniadau archwiliadau'r awdurdod lleol yn ôl i Lu'r Ffiniau a'r FSA i hysbysu'r gwaith o dargedu pellach i'r dyfodol ac i Defra am ddibenion ystadegol.

## APHA – Gorfodi

3.9 Am resymau'n ymwneud ag iechyd anifeiliaid, mae gwahaniaeth amlwg yn y modd y delir a symudiadau'r UE (a adwaenir fel arfer yn fasnach UE fewnol) a mewnforion o drydydd gwledydd.

3.10 Mae yna ystod eang o ofynion iechyd anifail ac iechyd cyhoeddus cytbwys y mae'n ofynnol i bob Aelod-Wladwriaeth eu parchu. Ar gyfer anifeiliaid byw, fel arfer mae gofyniad y dylid sicrhau bod tystysgrif iechyd a ddilyswyd gan Filfeddyg Swyddogol o'r wlad wreiddiol, yn atodol i bob llwyth.

3.11 Golyga symudiadau masnachol rhydd y gall llwythi o Aelod-wladwriaethau eraill deithio'n syth i'w cyrchfannau heb wiriadau milfeddygol. Yn y rhan fwyaf o achosion (ar wahân i ardystiadau iechyd), rhoddir tystysgrif iechyd ar System Cofnodi Symudiadau Anifeiliaid Rhwng Gwledydd yr UE (TRACES) 24 awr cyn allforio.

3.12 Rhan o waith APHA yw gwirio cyfran o'r ddogfennaeth ar-lein ynghyd â'r anifeiliaid os yw hynny'n briodol, yn y gyrchfan. Golyga hyn gynnal gwaith gwyliadwriaeth a samplu ar anifeiliaid a chynnyrch anifeiliaid fel rhan o fonitro afiechydon rhyngwladol er mwyn atal y risg o afiechydon yn cael eu mewnforio i'r Deyrnas Unedig a'u lledaenu drwy'r wlad.

3.13 Mae DAERA wedi cyfrannu at waith asiantaethau gorfodi yng Ngogledd Iwerddon a rhai yng ngweddill y Deyrnas Unedig i rannu cudd-wybodaeth a chytuno ar ddulliau o fynd ati i nodi ac atal y fasnach anghyfreithlon mewn cŵn bach.  Mae hyn wedi cynnwys cyflwyno gwiriadau ychwanegol ym mhorthladdoedd Gogledd Iwerddon ar lwythi o gŵn sy'n cael eu cludo i Brydain Fawr.

## Effeithiau achosion yn yr UE ar fasnach

Cafwyd tri achos o Ffliw Adar mewn dofednod yn Lloegr ac un yn yr Alban yn ystod y cyfnod 2014-2016. Roedd y rhain yn ymosodiadau ar wahân gan wahanol firysau ar ddofednod mewn rhanbarthau y gwyddys eu bod mewn perygl o dreiddio gan adar gwyllt. Roeddent yn cynnwys: Swydd Efrog yn Nhachwedd 2014 (H5N8 HPAI), Hampshire yn Chwefror 2015 (H7N7 LPAI), Swydd Caerhirfryn yng Ngorffennaf 2015 (H7N7 HPAI) a Dunfermline yn Ionawr 2016 (H5N1 LPAI).

Llwyddodd y Deyrnas Unedig i adennill ei rhyddid cyn gynted ag y bo modd rhag yr holl achosion o ffliw adar, ac ni chanfuwyd unrhyw ymledu i safleoedd eraill yn y Deyrnas Unedig nac i Aelod Wladwriaethau eraill. Ym mhob achos, y ffynhonnell fwyaf tebygol o'r afiechyd oedd cyswllt uniongyrchol neu anuniongyrchol ag adar gwyllt wedi'u heffeithio. Cyfyngwyd atal masnach â'r UE i'r cyfnod a nodir yn neddfwriaeth yr UE (21 diwrnod wedi'r glanhau a'r diheintio olaf, pan godir parthau rheoli) a masnach â thrydydd gwledydd i dri mis wedi glanhau a diheintio eilaidd.

Mae achosion o Ffliw Adar wedi digwydd mewn Aelod Wladwriaethau eraill hefyd. Cafwyd episöotig sylweddol o Ffliw Adar yn Ffrainc mewn hwyaid pesgi yn hydref 2015 yn bennaf, ac arweiniodd hynny at barth rheoli yn cwmpasu De-orllewin Ffrainc ac fe wnaeth hynny atal allforio cynnyrch dofednod uchel eu gwerth am sawl mis. Mae episöotig clefyd y Tafod Las (BTV-8 yn Ffrainc a BTV-4 yn Ne-ddwyrain Ewrop) wedi effeithio rhywfaint ar fasnach, ond yn gyffredinol, yn achos plasma cenhedlu ac anifeiliaid byw yn unig, o ranbarthau ble na ddefnyddir brechlynnau, ond fe wnaeth yr achosion hyn beryglu poblogaeth da byw cnoi cil y Deyrnas Unedig, a chydweithiodd Defra yn galed â'r diwydiant i reoli'r risg trwy frechu ymlaen llaw. Felly, ni wnaeth y Deyrnas Unedig deimlo unrhyw effeithiau.

Mae Clefyd y Croen Talpiog wedi lledaenu o Dwrci i Dde-ddwyrain yr UE yn haf 2015, ac yna i wledydd Gorynys y Balcanau yn 2016. Caniatawyd i frechlyn byw gael ei drwyddedu ar frys i wledydd a effeithiwyd fel mesur rheoli. Ar hyn o bryd, mae'r Deyrnas Unedig yn diweddaru ein cynllun wrth gefn ynghylch afiechydon i ystyried y newid yn y risg ar gyfer yr afiechyd hwn.

Fe wnaeth Clwy Affricanaidd y Moch ledaenu o Felarws i Ddwyrain yr UE yn 2014, gan achosi gwaharddiad ar fewnforio cig moch o'r UE i Rwsia. Mae'r gwaharddiad hwn yn dal yn ei le yn sgil mesurau a orfodwyd ar Rwsia gan yr UE mewn ymateb i'r sefyllfa yn Wcráin, ac mae'r UE yn dwyn achos yn y WTO ar hyn o bryd.

# Pennod 4

## GWEITHIO YNGHYD – CYDLYNU A CHYDWEITHIO

### Newidiadau

### Deddfwriaeth

4.1 Yn ystod y cyfnod hwn, ni fu unrhyw newidiadau o bwys i ddeddfwriaeth. Mae Defra wedi parhau i weithio ar Reoliadau Iechyd Anifeiliaid drafft yr UE a deddfwriaeth Mesurau Rheoli Bwyd a Phorthiant Swyddogol.

### Gweithdrefnau

4.2 Cydweithiodd Defra a Llu'r Ffiniau i symud oddi wrth gytundeb lefel gwasanaeth i "Strategaeth Gorfodi" "newydd. Mae'n diffinio'r amcanion a rennir i leihau'r risg a amlygir gan gynnyrch anifeiliaid a fewnforir yn anghyfreithlon i'r lefel isaf bosib. Cwblhawyd y Strategaeth Gorfodi yn Hydref 2014. Amcan y strategaeth yw gwella'r gallu'n barhaus i gynnal dadansoddiad ac adrodd effeithiol. Mae hyn yn sicrhau gwell dull o adrodd am gudd-wybodaeth a gwybodaeth reoli. Cefnogir y Strategaeth Orfodi gan Gytundeb Darparu.

4.3 Mae Defra yn adolygu'r Llawlyfr BIP[12] er mwyn ystyried y newidiadau i ddeddfwriaeth yr UE ac i ymgorffori cyfarwyddiadau o'r nodiadau OVS a gyhoeddwyd yn y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn sicrhau bod gan y Milfeddygon Swyddogol sy'n gyfrifol am gwblhau'r archwiliadau wrth y ffin yr holl wybodaeth angenrheidiol a'r canllawiau i'w cynorthwyo i wneud y gwaith hwn.

https://www.gov.uk/government/publications/border-inspection-post-bip-manual

http://ahvla.Defra.gov.uk/official-vets/Guidance/bip/ovs-notes.htm

### Rhaglenni hyfforddiant

4.4 Cyrsiau BIP – Bu i 49 (2014/15) a 53 (2015/16) o Lawfeddygon Milfeddygol Swyddogol y Deyrnas Unedig ac Archwilwyr Pysgod Swyddogol sy'n gyfrifol am gynnal gwiriadau ar fewnforion mewn BIPs fynychu pedwar gweithdy BIP a drefnwyd gan APHA. Amlygwyd rhai

[12] Mae'r Llawlyfr BIP yn darparu arweiniad ar weithredu deddfwriaeth yn ymwneud â gwiriadau ar gynnyrch o darddiad anifeiliaid a fewnforiwyd o drydydd gwlad. Mae'n cwmpasu deddfwriaeth yr UE a rheolau cenedlaethol sy'n berthnasol i BIPs ac yn sefydlu dosbarthiad cyfrifoldebau a'r gweithdrefnau ar gyfer yr awdurdodau gorfodi sy'n cyflawni gwiriadau milfeddygol.

anghenion hyfforddiant yn ystod archwiliadau'r BIPs e.e. deddfwriaeth newydd a diwygiedig, safleoedd rheoli lle cafwyd anawsterau oherwydd y defnydd anghyson o reolau gwirio milfeddygol. Anfonwyd holiaduron cyn hyfforddi cyn y diwrnod hyfforddi a buont yn ddefnyddiol iawn o ran gwella lefelau gwybodaeth y mynychwyr ac yna cynlluniwyd digwyddiadau hyfforddi i'r dyfodol i ymdrin ag unrhyw ddiffygion a nodwyd. Mae'n ofynnol i gynrychiolwyr o bob BIP fynychu unwaith bob dwy flynedd a bwydo gwybodaeth yn ôl i'w cydweithwyr.

4.5 Yr FSA – mae'n darparu amrywiaeth o gyrsiau hyfforddiant ynghylch bwyd wedi'i fewnforio ar gyfer Awdurdodau Iechyd mewndirol a Phorthladdoedd. Yn ystod y cyfnod adrodd, cydlynodd a darparodd yr FSA:

- Rhwng Ebrill 2014 a Mawrth 2015, darparwyd 11 o gyrsiau i 177 o swyddogion awdurdodedig yn y Deyrnas Unedig. Roedd y cyrsiau hyn yn cynnwys cwrs ynghylch system i-RASFF i hyfforddi swyddogion awdurdodedig ynghylch y defnydd o'r system RASFF a sut caiff hysbysiadau eu codi a'u hadrodd. Darparodd yr FSA chwech o'r cyrsiau hyn ar gyfer awdurdodau mewndirol i sicrhau fod y swyddogion mewndirol awdurdodedig yn deall y gorfodi sy'n ofynnol a'r peryglon sy'n gysylltiedig â bwydydd wedi'u mewnforio. Mae'r rhaglen yn parhau i hyfforddi ac addysgu porthladdoedd llai ynghylch meysydd polisi bwyd ac egluro'r cyfyngiadau diweddaraf.

- Rhwng Ebrill 2015 a Mawrth 2016, darparwyd 12 o gyrsiau i 205 o swyddogion awdurdodedig yn y Deyrnas Unedig. Cydweithiodd yr FSA â'r APHA i ddiweddaru Safleoedd Archwilio Ffiniau ac egluro gorfodi a pholisi ynghylch cynnyrch pysgodfeydd i'w bwyta gan bobl.

- Mae'r FSA yn parhau i gefnogi a chydlynu ceisiadau gan swyddogion awdurdodedig i fynychu cyrsiau sy'n cael eu rhedeg gan y Tîm Bwyd Diogelach drwy Hyfforddiant Gwell. Mae hyn yn sicrhau fod swyddogion awdurdodedig yn deall mesurau rheoli swyddogol ar lefel fanylach ac yn datblygu perthnasoedd yn rhyngwladol er mwyn cysoni mesurau rheoli ag Aelod Wladwriaethau eraill.

4.6 Bwyd Diogelach drwy Hyfforddiant Gwell (BTSF) y Comisiwn Ewropeaidd - fe fynychodd 32 o gynrychiolwyr o'r BIP gyrsiau hyfforddiant a drefnwyd drwy'r rhaglen BTSF[13]. Nod y gweithdai hyn yw gwella'r ddealltwriaeth o ofynion deddfwriaethol a lledaenu'r arferion rheoli gorau ymysg staff rheoli ffiniau'r Aelod Wladwriaethau. Cafodd deunydd dysgu BTSF a BIPs eu rhannu ymysg staff sydd ynghlwm â mesurau rheoli swyddogol drwy gyrsiau mewnol.

## Ymgyrchoedd diogelwch, ansawdd a gwybodaeth

4.7 Mae Llu'r Ffiniau yn arwain y cyfrifoldeb am roi cyhoeddusrwydd i'r cyhoedd ynghylch rheolau cyfredol mewnforio cynnyrch anifeiliaid mewn porthladdoedd a meysydd awyr, ac mae'n gweithio'n agos â Defra drwy strategaeth gyfathrebu a marchnata gydlynol:

[13] Mae'r rhaglen BTSF yn fenter gan y Comisiwn Ewropeaidd sy'n trefnu hyfforddiant ar feysydd o gyfraith bwyd a phorthiant Ewrop, offer ac iechyd anifeiliaid, a rheoliadau lles ec.europa.eu/food/training_strategy/index_en.htm and ec.europa.eu/chafea/food/index.html

4.8 Yn ystod y cyfnod adrodd, cyhoeddodd yr FSA:

- gyfanswm o 127 o hysbysiadau ffurfiol i swyddogion awdurdodedig yn Lloegr ar faterion gorfodi yn ymwneud ag iechyd cyhoeddus ac anifeiliaid. Mae'r gofrestr ganolog o ohebiaeth yn ymwneud â gorfodi ar gael yn: food.gov.uk/enforcement/enforcework/centralref/enf-england
- gynnal hafan benodol ynghylch bwyd a fewnforir food.gov.uk/enforcement/enforcework/enforce_authorities. Dyma ffynhonnell gynhwysfawr o wybodaeth ar fesurau rheoli bwyd a fewnforir sy'n cael ei diweddaru'n rheolaidd.

## Rhaglen archwilio BIPs

BIPs Cynnyrch

4.9 Bydd APHA yn cynnal archwiliadau i wirio cydymffurfiaeth â deddfwriaeth yr UE a deddfwriaeth fewnol ynghylch gweithdrefnau a chyfleusterau.

4.10 Yn ystod y cyfnod adrodd, cynhaliwyd yr archwiliadau canlynol:

- Asesiad llawn o'r gweithdrefnau a ddilynir gan staff BIP i ddarparu'r mesurau rheoli swyddogol ynghylch mewnforion.
- Asesiad o addasrwydd y cyfleusterau ar gyfer cynnal y mesurau rheoli angenrheidiol.
- Asesiad o effeithiolrwydd y gwiriadau dilysu gan yr awdurdod gorfodi lleol. Mae'r gwiriadau dilysu'n hanfodol fel cam cyntaf wrth sicrhau bod y cyfleusterau'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a bod gwiriadau milfeddygol yn cael eu cwblhau yn unol â'r cyfarwyddiadau yn y Llawlyfr BIPs a deddfwriaeth yr UE a deddfwriaeth wladol.

4.11 Cwblhawyd archwiliadau yn seiliedig ar risg ac ymweliadau cydweithredol (ymweliadau anffurfiol i BIPs rhwng archwiliadau ffurfiol) mewn BIPs cynnyrch gan yr APHA fel a ganlyn:

- BIPs Cynnyrch – bu i bob BIP â phrysurdeb uchel neu ganolig gael un archwiliad ar weithdrefnau ac un arall ar gyfleusterau bob blwyddyn. Cafodd pob BIP â phrysurdeb isel un ymweliad archwilio ac archwiliwyd y cyfleusterau a'r gweithdrefnau yn ystod yr ymweliad hwn.
- BIPs Anifeiliaid Byw – Cwblheir asesiadau sicrwydd annibynnol unwaith y flwyddyn gan y Tîm Sicrwydd Ansawdd Gweithrediadau (OQA) â chymorth gan arbenigwyr technegol a milfeddygol o'r Ganolfan Masnach Ryngwladol – Caerliwelydd (CITC).

4.12 Nod yr archwiliad blynyddol yw cynnig sicrwydd fod y BIPs yn cael eu rhedeg yn unol â'r safonau cytunedig cenedlaethol yn y Llawlyfr Gweithrediadau, a bod y cyfleusterau a'r lefelau staffio yn ddigonol i weithredu'r BIP yn effeithiol. Bydd y Tîm Archwilio yn cadarnhau fod y gwiriadau yn cael eu cwblhau yn briodol ac yn gywir, yn unol â chyfarwyddiadau Llawlyfr Gweithrediadau APHA a'r ddeddfwriaeth berthnasol.

4.13 Bydd yr archwiliad blynyddol yn cynnwys dwy ran:

- rhan 1 – gwirio'r CVEDs gan ddefnyddio'r cwestiynau yn nhab 'gwiriadau CVED' yr Adroddiad Cryno ynghylch Gwiriadau Sicrwydd Ansawdd Anifeiliaid Byw BIP (BI04).
- rhan 2 – gwirio'r canlynol:
    - o strwythur
    - o cyfleusterau
    - o hyfforddiant a
    - o samplu.

Mae'r holl wiriadau blynyddol wedi'u cwblhau ar gyfer y cyfnod hwn o'r adroddiad.

## Cydweithio rhwng Llu'r Ffiniau a Defra

4.14 Mae diddordebau bioddiogelwch Defra'n cwmpasu iechyd anifeiliaid, planhigion ac anifeiliaid dŵr ynghyd â rhywogaethau estron ymledol, yn cynnwys cynnyrch anifeiliaid. Mae'r Adran wedi asesu'n dull o ymdrin â'r risgiau a'r materion yn ymwneud â bioddiogelwch ar draws y parhad o weithgareddau ar fioddiogelwch – cyn-ffiniol, ar y ffin ac yn y Deyrnas Unedig.

4.15 Cynhaliwyd Cyfarfodydd Bioddiogelwch Gweinidogaethol Misol (MBMs) yn ystod y cyfnod adrodd i sicrhau cynnydd amserol wrth ymateb i risgiau bioddiogelwch posib a chynnig trosolwg a chyfarwyddyd strategol. Mae dull newydd o asesu risgiau wedi sicrhau y gellir asesu risgiau i iechyd anifeiliaid a phlanhigion gyda'i gilydd, o ran tebygolrwydd ac effaith.

4.16 Fel rhan o waith ehangach ar fioddiogelwch, mae Defra'n dymuno gwella'r ymwybyddiaeth o reolau bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig a'r gydymffurfiaeth â hynny, mewn perthynas â mewnforio planhigion ac anifeiliaid, gyda chefnogaeth orfodi effeithiol er mwyn ymdrin â diffyg cydymffurfiaeth. Yn ystod 2014/15, llwyddwyd i ddwysáu'r berthynas strategol gyda Llu'r Ffiniau ymhellach i wella'r cydweithio. Gwnaed hyn drwy gytuno ar waith cyfredol a chydlynu gweithgarwch, ac yn unol â blaenoriaethau gweithredol a rhannu gwybodaeth, targedu gwaith gorfodi'n well ar y ffiniau. I'r dyfodol, rydym yn bwriadu ffurfioli'r trefniant hwn ar ffurf cytundeb cydweithio. Cydweithiodd Defra a Llu'r Ffiniau hefyd i sicrhau fod Iechyd Planhigion yn flaenoriaeth amlwg o fewn strategaeth mesurau rheoli Llu'r Ffiniau, gan wella proffil y mater a sicrhau gweithgarwch amlasiantaethol cydlynedig yn erbyn bygythiadau i Iechyd Anifeiliaid i'w cynllunio a'u gweithredu wrth y ffin.

## Datblygiadau newydd

4.17 Yn dilyn asesiad risg milfeddygol yn 2015 a 2016, fe wnaeth awdurdodau'r Deyrnas Unedig bennu, yn sgil y risg o Afiechyd Nychdod Cronig (CWD), y dylid gwahardd mewnforio wrin/ysgarthion ceirw heb eu prosesu a llithwyr yn deillio o geirw ar gyfer defnydd masnachol neu bersonol i hela ceirw neu weithgareddau denu ceirw eraill sy'n cynnwys y sgil-gynhyrchion anifeiliaid uchod.

4.18 Byddai mewnforion yn cael eu caniatáu o wledydd sydd heb Afiechyd Nychdod Cronig (CWD) o dan amgylchiadau penodol. Gwaharddwyd mewnforio cynnyrch wedi'u cynhyrchu yn yr UDA, Canada, De Corea a Norwy, neu wedi'u cynhyrchu o gynnyrch o'r gwledydd hyn, ble mae CWD yn bresennol.

4.19 I gynorthwyo mewnforwyr, crëwyd Nodyn Gwybodaeth i Fewnforwyr i hysbysu am wahardd y fath ddeunydd heb eu prosesu a llithwyr, a'r weithdrefn i'w dilyn i fewnforio cynnyrch wedi'u prosesu.

## Trem i'r Dyfodol 2016-17

## Llu'r Ffiniau a Defra

Yn ddiweddar, mae Llu'r Ffiniau wedi diwygio ei strwythurau gosod tasgau a chydlynu cenedlaethol, gan sicrhau ymagwedd fwy strategol at gynllunio a gweithredu gweithrediadau cenedlaethol. Mae Defra ac asiantaethau eraill yn allweddol i effeithiolrwydd y gweithrediadau hyn, ac maent wedi'u cynrychioli mewn strwythurau strategol, tactegol ac ymarferwyr. Nod yr holl weithgarwch gweithredol cenedlaethol yw sicrhau gwelliant parhaus i ganfod a gwahardd bygythiadau i ffin y Deyrnas Unedig. Bydd gweithrediadau cenedlaethol yn y dyfodol ym maes bioddiogelwch yn mynd i'r afael â'r bygythiadau hynny sy'n uchel ar restr blaenoriaethau Defra, a ble gall ymyriadau ystyrlon wrth y ffin wneud gwahaniaeth strategol yn natur y bygythiad.

Er bod swyddogaethau gweithredol Llu'r Ffiniau o ran bygythiadau i fioddiogelwch wedi'u cyfyngu o reidrwydd gan gwmpas a grymoedd statudol, mae cydlynu gweithgarwch amlasiantaethol ger y ffin yn caniatáu'r defnydd gorau posibl o bartneriaeth ar draws llywodraeth i ymateb i'r bygythiadau hynny.

## Rheoliadau Masnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol 2011 (Lloegr) (TARP)

Mae'r Rheoliadau Masnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid 2011 SI 1197 (TARP) yn gweithredu cyfraith yr UE ar fesurau rheoli milfeddygol wrth ffiniau i sicrhau fod anifeiliaid byw a chynhyrchion anifeiliaid sy'n dod i Loegr o Aelod Wladwriaethau eraill a thrydydd gwledydd yn ddiogel ac yn cyflawni amodau mewnforio penodol yr UE. Mae gan Defra gyfrifoldeb statudol i adolygu'r rheoliadau bob pum mlynedd i gadarnhau ei bod yn cyflawni ei hamcan. Mae'r adolygiad cyntaf yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

## Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid

Rheoliad 2016/429 (UE) ynghylch afiechydon anifeiliaid trosglwyddadwy a diwygio a diddymu rhai deddfau penodol ym maes iechyd anifeiliaid:

- Cyhoeddwyd y rheoliad ar 31 Mawrth 2016
- Daw i rym – 21 Ebrill 2016
- Dyddiad cymhwyso – 21 Ebrill 2021

Yn ystod y misoedd/blynyddoedd sy'n dod, bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn cyflwyno deddfwriaeth ddrafft sy'n cyflwyno'r rheolau manwl a fydd yn berthnasol i fasnach a mewnforion anifeiliaid a chynnyrch anifeiliaid. Bydd Defra ac APHA yn cydweithio i asesu a chyd-drafod y rheolau manwl hyn.

## Adolygiad o Fesurau Rheoli Swyddogol

Caiff Rheoliadau Swyddogol newydd ynghylch Mesurau Rheoli sy'n amlinellu perfformiad mesurau rheoli swyddogol a gweithgareddau eraill gan Awdurdodau Cymwys yn cael eu cyflwyno yn yr ychydig flynyddoedd nesaf. Dyma'r amserlen arfaethedig:

- Cânt eu mabwysiadu yn fuan yn 2017
- Dod i rym – Ebrill 2016
- Dyddiad cymhwyso – Rhagfyr 2019

Yn union fel y Rheoliad Iechyd Anifeiliaid, bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn cyflwyno deddfwriaeth ddrafft sy'n cyflwyno'r rheolau manwl a fydd yn berthnasol i fasnach a mewnforion anifeiliaid a chynnyrch anifeiliaid. Bydd Defra, APHA a'r FSA yn cydweithio i asesu a chyd-drafod y rheolau manwl hyn.

## Gadael yr UE


Ar 23 Mehefin 2016, cynhaliwyd refferendwm yr UE a phleidleisiodd pobl y Deyrnas Unedig i adael yr Undeb Ewropeaidd. Bydd y Deyrnas Unedig yn dal yn aelod llawn o'r Undeb Ewropeaidd nes cwblheir y trafodaethau gadael, ac mae holl hawliau ac ymrwymiadau aelodaeth o'r UE yn parhau mewn grym. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd y Llywodraeth yn parhau i drafod, gweithredu a defnyddio deddfwriaeth yr UE. Bydd canlyniad y trafodaethau hyn yn pennu pa drefniadau fydd yn eu lle ynghylch deddfwriaeth yr UE yn y dyfodol ar ôl i'r Deyrnas Unedig adael yr UE.

## Atodiad A: Ystadegau ar fewnforio cynnyrch anghyfreithlon


Er dibenion yr ystadegau hyn, mae "anghyfreithlon" yn cyfeirio at gynnyrch anifeiliaid a atafaelwyd fel eitemau gan unigolion yn tramgwyddo'r consesiynau personol a ganiateir neu becynnau masnachol a geisiodd osgoi gweithdrefnau mynediad cywir drwy beidio â chael eu datgan ar Safle Archwilio ar Ffin. Mae'r ystadegau hyn hefyd yn cynnwys eitemau a ildiwyd yn wirfoddol gan deithwyr mewn porthladdoedd a meysydd awyr.

Dengys ffigurau'r nifer a phwysau'r atafaeliadau gan Lu'r Ffiniau a DAERA, a'r rhai a wnaed gan Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Iechyd Porthladd ar safleoedd mynediad perthnasol.

### Graffiau yn dangos y cyfanswm o atafaeliadau yn cynnwys pwysau (2014-2016)





Atafaelu llwythi




**Nifer yr atafaeliadau yn cynnwys pwysau ym mhob rhanbarth yn ystod 2014-2016**

| ID/Enw'r Rhanbarth | Tabl 1: Nifer yr atafaeliadau (yn cynnwys pwysau) ym mhob rhanbarth yn ystod 2014-15 | | Tabl 2: Nifer yr atafaeliadau (yn cynnwys pwysau) ym mhob rhanbarth yn ystod 2015-16 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer yr atafaeliadau | Pwysau (mewn kg) | Nifer yr atafaeliadau | Pwysau (mewn kg) |
| Dwyrain Ewrop | 552 | 2,516 | 509 | 2,637 |
| Dwyrain Affrica | 227 | 1,500 | 145 | 1,341 |
| Gogledd Affrica | 154 | 768 | 70 | 210 |
| Canolbarth Affrica | 66 | 589 | 36 | 375 |
| Deheubarth Affrica | 190 | 616 | 110 | 266 |
| Gorllewin Affrica | 566 | 6,272 | 394 | 6,977 |
| Gogledd America | 263 | 30,602 | 195 | 8,393 |
| Y Caribî | 122 | 633 | 101 | 1,904 |
| Canolbarth a De America | 128 | 815 | 66 | 4,245 |
| Dwyrain Asia | 2,114 | 15,200 | 1,437 | 18,927 |
| De Asia | 1,431 | 7,728 | 795 | 4,139 |
| De-ddwyrain Asia | 179 | 638 | 155 | 327 |
| Y Dwyrain Agos a Chanol | 1,466 | 8,053 | 902 | 10,005 |
| Ynysoedd y De | 34 | 1,007 | 36 | 3,829 |
| Ewropeaidd | 3 | 15 | 6 | 23 |
| Anhysbys | 6,197 | 45,137 | 4,551 | 35,535 |
| UE | 97 | 471 | 302 | 1,241 |
| India'r Gorllewin | 1 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **13790** | **122,560** | **9,810** | **100,374** |


## Siart Cylch 1 ar gyfer Tabl 1: nifer y cynnyrch anifeiliaid a atafaelwyd fesul rhanbarth yn 2014-2015





## Siart Cylch 2 ar gyfer Tabl 1: Pwysau'r cynnyrch anifeiliaid a atafaelwyd fesul rhanbarth yn 2014-2015




## Siart Cylch 3 ar gyfer Tabl 2: Nifer y cynnyrch anifeiliaid a atafaelwyd fesul rhanbarth yn 2015-2016





## Siart Cylch 4 ar gyfer Tabl 2: Pwysau'r cynnyrch anifeiliaid a atafaelwyd fesul rhanbarth yn 2015-2016



**Graffiau yn dangos nifer yr atafaeliadau a phwysau fesul cynnyrch (2014-2016)**




Ffynhonnell y data ar gyfer y graffiau uchod: BF, DAERA ac Awdurdodau Lleol

# Atodiad B Geirfa o dalfyriadau ac acronymau cyffredin

| | |
|---|---|
| **ABPs** | Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid |
| **AC** | Awdurdod Cymwys |
| **ALl** | Awdurdodau Lleol |
| **ASF** | Clwy Affricanaidd y Moch |
| **AHVLA** | Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Labordai Milfeddygol – a elwir yn awr yn Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) |
| **BIP(s)** | Safle(oedd) Archwilio Ffiniau |
| **CE** | Comisiwn Ewropeaidd |
| **CVED** | Dogfen Mynediad Filfeddygol Gyffredin |
| **DARD NI** | Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig Gogledd Iwerddon |
| **DAERA** | Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon y tu allan i gyfnod yr adroddiad hwn. Mae DARD NI yn cael ei adnabod fel DAERA ers Mai 2016. |
| **Defra** | Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig |
| **DU** | Y Deyrnas Unedig |
| **FMD** | Clwy'r Traed a'r Genau |
| **FSA** | Asiantaeth Safonau Bwyd |
| **FVO** | Swyddfa Bwyd a Milfeddygaeth |
| **GB** | Prydain Fawr |
| **HMRC** | Cyllid a Thollau ei Mawrhydi |
| **HPAI** | Ffliw Adar Pathogenig Iawn |
| **Gwiriadau ID** | Gwiriadau Hunaniaeth |
| **LlC** | Llywodraeth Cymru |
| **NI** | Gogledd Iwerddon |
| **OIE** | Sefydliad Iechyd Anifeiliaid y Bydd |
| **OVS(s)** | Llawfeddyg(on) Milfeddygol Swyddogol |
| **Pwyllgor PAFF** | Pwyllgor Sefydlog ar Blanhigion, Anifeiliaid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid – ScoFCAH yn flaenorol (Pwyllgor Sefydlog ar y Gadwyn Fwyd ac Iechyd Anifeiliaid) |
| **PHA** | Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd |
| **RASFF** | System Rhybuddio Cyflym yr UE ar gyfer Bwyd a Phorthiant Anifeiliaid |

| | |
|---|---|
| **SG** | Llywodraeth yr Alban |
| **TARP** | Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol |
| **TRACES** | System Rheoli Masnach ac Arbenigol yr UE |
| **UE** | Undeb Ewropeaidd |

ISBN 978-5286-0017-0
CCS081744040